

DR. ALAN STONE MBBS, MRCGP, DRCOG, DCH, FP Cert.

DR. SIWAN EVANS MBBS, MRCGP, DRCOG, DCH, FP Cert.

DR. BETHAN HERBERT MBBS, MRCGP, DRCOG, FP Cert. MF. Hom.

DR. PHIL GANDERTON MBBCh(Wales), MRCGP.

DR. DEBORAH VAUGHAN MBBCh, MRCGP, DRCOG.



Meddygfa CANNA Surgery

**27 Wyndham Crescent,
Treganna, Caerdydd CF11 9EE**

**RHIF FFÔN: (029) 2039 0722
(DAY AND NIGHT)**

WEB SITE: www.cannasurgery.co.uk

RHIF FFACS: (029) 2039 4433

FINIAU'R FEDDYGFA

River Taff

LLANDAF

Western Avenue

PONTCANNNA

G



Afon Taf

Cathedral Road

Kings Road

27 WYNDHAM
CRESCENT



Wyndham Crescent

TREGANNA

GLAN YR AVON

Mellinaton Street

Cowbridge Road East

Severn Road

Severn Grove

Landaff Road

Lansdowne Road

Pendseely Road

PARC VICTORIA

CROESO I'R FEDDYGFA

Rydym yn bartneriaeth o 4 Meddyg Teulu sy'n rhoi ystod lawn o ofal iechyd a gwasanaethau i'r teulu i gyd. Mae'r Practis yn gynnwys ardaloedd Tre ganna, Glan yr Afon, Llandaf a Phont canna

GWYBODAETH AM Y MEDDYGON

Dr Alan Stone (G), MBBS, MRCGP, DRCOG, DCH, FP Cert.
Graddiodd yn Llundain yn1984.

DrSiwan Evans (B) MBBS, MRCGP, DRCOG, DCH, FP Cert.
Graddiodd yn Llundain yn 1982. Mae'n siarad Cymraeg yn rhugl.

Dr Bethan Herbert (B) MBBS, MRCGP, DRCOG, MFHom,
FP Cert.COBC(aciwbigo). Graddiodd yn Llundain yn 1987. Mae'n siarad Cymraeg yn rhugl.

Dr. Phillip Ganderton (G) MBBCh(Cymru) ,MRCGP. Graddiodd yng Nghaerdydd yn 1994.

Dr. Deborah Vaughan (B) MBBCh(Cymru) ,MRCGP, DRCOG.
Graddiodd yng Nghaerdydd yn 1988.

Weithiau byddwn yn cyflogi locwm os bydd un o'r meddygon i ffwrdd.
Byddwn bob amser yn sicrhau eu bod yn feddygon trwyddedig, profiadol.

ORIAU AGOR Y FEDDYGFA

Dydd Llun i Ddydd Gwener

8.30yb – 6.00yh

Apwyntiadau

APWYNTIADAU AR Y DYDD

9.00yb – 12.00yb

APWYNTIADAU YMLAEN LLAW

3.00yh – 5.30yh

SUT I WELD EICH MEDDYG

Apwyntiadau yn y bore;

Os ffoniwch chi rhwng 8.30yb a 10.00yb mi wnawn geisio eich gweld y bore yna. Byddwch yn cael amser penodol i ddod i'r feddygfa. Byddwn yn ceisio ein gorau i weld pawb ar y dydd maent yn ffonio. Bydd achosion brys bob amser yn cael eu gweld yr un dydd.

Apwyntiadau yn yr hwyr;

Mae gennym sustem apwyntiadau. Gwnewch yn sicr eich bod yn gofyn am apwyntiad ar wahân i bob person sydd am weld y meddyg os gwelwch yn dda. Medrwcw wneud apwyntiad dros y ffôn neu'n bersonol wrth y dderbynfa, i weld meddyg o'ch dewis. Cofiwch ffonio i ddiddymu unrhyw apwyntiad na fyddwch yn medru ei gadw.

Ymweliadau cartref;

Os ydych yn rhy sâl neu'n methu symud yn ddigon da i ddod i'r Feddygfa ac angen ymweliad cartref, a wnewch ein ffonio cyn 10.30am os gwelwch yn dda. Efallai bydd y dderbyn wraig yn gofyn manylion am eich afiechyd er mwyn i'r meddyg benderfynnu pa mor fuan mae angen ymweliad. Mae'n bosib fydd y meddyg yn eich ffonio'n ôl. Er hynny, cofiwch fod gwell cyfleusterau ar gyfer eich archwilio a gwneud profion arbennig yn y Feddygfa.

Galwadau nos;

Ar ôl 6.00yh a chyn 8.30am yn yr wythnos, ac ar benwythnosau medrwcw ffonio NHS Direct am gyngor iechyd. Rhif ffôn **0845 46 47. Eu gwefan yw**

www.nhsdirect.co.uk. Os ydych angen meddyg ar frys ac na fedrwcw aros tan y bore, ffoniwch 20444500. Efallai y cewch gyngor dros y ffôn neu'ch gwahodd i fynychu'r ganolfan neu alwad i'ch cartref. Nodwch mai'r Bwrdd Iechyd Lleol sydd nawr yn gyfrifol am drefnu'r gwasanaeth yma.

Cyngor dros y ffôn;

Mae'r meddygon yn hapus i roi cyngor dros y ffôn. Gofynnwch i'r dderbyn wraig os ydych am siarad gyda Meddyg. Nid ydym yn torri ar draws ymgynghoriad felly efallai bydd yn rhaid i chwi aros cyn cael eich ffonio yn ôl.

GWYBODAETH GYFFREDINOL

Ail Bresgripsiwn;

Medrwyh gael eich ail bresgripsiwn o'r dderbynfa drwy estyn yr wrth ddalen o'ch presgripsiwn cyfrifiadurol i'r dderbynwraig. Cofiwch roi tic wrth yr eitemau sydd eu hangen arnoch os gwelwch yn dda. Peidiwch ofyn am bethau nad yw'r meddyg wedi dweud y gellwch eu cael fel ail bresgripsiwn. Rhaid gadael dau ddiwrnod gwaith cyn casglu'r eitemau. Ar y llaw arall, gallwch bostio'ch cais i ni gan amgáu amlen wedi ei chyfeirio a'i stampio. Gallwch hefyd anfon e-bost at repeat.prescriptions@gp-w97296.wales.nhs.uk. Peidiwch ffonio am ail bresgripsiwn os gwelwch yn dda er mwyn cadw llinellau'r ffôn yn glir ar gyfer galwadau brys. Bydd y meddyg yn awyddus i'ch gweld o bryd i'w gilydd er mwyn cadw golwg ar eich cyflwr a'ch triniaeth.

Canlyniadau Profion;

Ni fyddwn yn cysylltu â phob claf gyda chanlyniad pob prawf. Rhaid i chi ffonio i gael y canlyniadau. Bydd y dderbyn wraig yn hapus i ddweud y canlyniad wrthych ond oherwydd cyfrinachedd ni fydd yn rhoi'r canlyniad i unrhyw un arall. Gallwch ffonio neu alw am y canlyniad. Bydd y canlyniadau ar gael ar ôl 2.00yh , Arhoswch 5 niwrnod ar ôl y prawf cyn gofyn am y canlyniad. Ni roddir canlyniad prawf beichiogrwydd na dadansoddiad sberm dros y ffôn.

Ffiniau'r Feddygfa;

Sylwch ar y map sy'n dangos ardal y practis os gwelwch yn dda. Os byddwch yn symud i fyw tu allan i'r ardal hwyrach na fyddwn yn medru edrych ar eich hôl. A wnewch drafod hyn gydag un o'r Meddygon cyn symud os gwelwch yn dda.

Cleifion Newydd;

I ymuno'r a'r feddygfa llenwch y ffurflen o'r dderbynfa a gwnewch apwyntiad gyda'r nyrs am archwiliad claf newydd. Efallai na fyddwn yn medru derbyn eich cais os nad ydych yn ddilys i dderbyn gofal CIG neu os ydych yn byw tu allan i ardal y practis.

Newid Manylion Personol;

Os bydd newid yn eich enw cyfeiriad neu rhif ffôn ar unrhyw adeg a wnewch chi ddweud wrthym os gwelwch yn dda er mwyn sicrhau fod eich manylion yn gywir a'n galluogi i gysylltu â chi os bydd angen. Mae ffurflen ar gael wrth y dderbynfa.

Myfyrwyr;

Rydym yn dysgu myfyrwyr meddygol. Medrant, gyda'ch caniatâd, fod yn bresennol gyda'r Meddyg yn ystod eich ymgynghoriad. Rhowch wybod I'r dderbynwraig wrth wneud eich apwyntiad os nad ydych yn hapus i fyfyrwyr fod un bresennol os gwelch yn dda.

Y Ganolfan;

Mae'r adeilad yn cydymffurfio â gofynion y GIG a gofynion lechyd a Diogelwch. Mae wedi ei chynllunio i gynnwys mynedfa i bobl anabl. Gadewch y llefydd parcio anabl i'r anabl os gwelwch yn dda. Defnyddiwch y maes parcio ar gyfer ymweliadau a'r feddygfa yn unig.

Cwynion;

Rydym yn croesawu unrhyw fewnbwn neu sylwadau ynglŷn â'r practis. Ceir trefniant arbennig o fewn y practis ar gyfer cwynion mwy ffurfiol. Medrwy chi wneud cwyn ffurfiol drwy ysgrifennu at neu siarad â rheolwr y practis.

Camymddwyn yn Erbyn y Staff;

Gofynnwn i chwi ddangos yr un cwrteisi tuag atom ni a byddech yn disgwyl ei dderbyn. Nid ydym yn barod i dderbyn unrhyw fath a cham-drin yn erbyn y meddygon na'r staff. Byddwn yn ymchwilio i bob achos ac efallai cewch lythyr oddi wrthym, adroddiad i'r heddlu ac efallai eich cymryd oddi ar ein rhestr.

Gofal Data;

Rydym yn dal gwybodaeth sensitif amdanoch chi a'ch gofal iechyd. Rydym wedi ein cofnodi o dan yr act gofal data. Mae gennych hawl i weld yr wybodaeth yma ac i gywiro unrhyw wallau. Efallai bydd angen talu am gopiâu. Ni all unrhywun arall weld eich manylion heb i chi roi caniatâd ysgrifenedig.

STAFF Y PRACTIS

Rheolwr y Feddygfa;

Rheolwr y Feddygfa yw Mr Christopher Williams. Ef sydd yn edrych ar ôl y Practis o ddydd i ddydd. Ef sydd yn gyfrifol am ymchwilio i unrhyw gwynion. Mae ganddo dîm cynorthwyol.

Derbyn wragedd;

Bydd y derbynwragedd yn trefnu apwyntiadau ac ateb cwestiynau. Efallai bydd angen iddynt ofyn am fanylion meddygol er mwyn medru eich helpu. Bydd unrhyw wybodaeth a roir iddynt yn cael ei drin yn gyfrinachol.

Nyrs Ymarferol;

Mae Claire McNamara wedi hyfforddi hyd at lefel gradd. Bydd hi'n gweld llawer o'r cleifion byddent fel arfer wedi gweld meddyg. Bydd hi hefyd yn helpu gyda chleifion sydd â salwch cronig a'r clinigau clefyd y siwgrwr a dafaden.

Nyrsys y Feddygfa;

Mae'r Nyrsys, Annette Evans a Lucy Gordon yn medru rhoi cyngor ynglŷn â iechyd cyffredinol, profion sgrinio, brechiadau, teithio tramor, chwistrellu clustiau, tynnu pwythau, rhwymynnau, profion gwaed, ymborth, cyngor atal cenhedlu yn cynnwys y bilsen, cyngor HRT, a.y.b.

Ymwelwyr Iechyd;

Ceir cydweithrediad agos gyda'r ymwelwyr iechyd sef Mrs Bethan Parr a Mrs Rachel Fredrick. Byddant yn ymweld â phlant dan 5 oed yn y cartref ac maent yn bresennol yn y Clinig Babanod. Gellir gweld Bethan a Rachel drwy wneud apwyntiad. Ffoniwch 2039 5368 (peiriant ateb).

Cynghorydd;

Mae cynghorydd yn gweithio gyda ni yn y Feddygfa. Byddwch yn cael eich cyfeirio ati os fydd y meddygon yn meddwl y bydd hi'n medru eich helpu.

Nyrsys Cymunedol;

Mae Nyrsys Cymunedol yn gweithio mewn cysylltiad agos â'r Practis. Maent yn cynnig gwasanaeth nyrsio i gleifion yn eu cartrefi. Gellir cysylltu â nhw drwy'r Dderbynfa neu ar 20666317.

Bydwragedd Cymunedol;

Mae Bydwragedd Cymunedol yn gysylltiedig â'r Practis ac yn help i edrych ar eich ôl yn ystod beichiogrwydd, genedigaeth ac wedi'r enedigaeth. Byddant yn y Feddygfa yn ystod Clinig Cyn Geni ar brynhawn dydd Mercher. Gellir cysylltu â nhw drwy'r Dderbynfa neu drwy Ward Esgor yn Ysbyty Llandochoau - rhif ffôn 20716001

CLINIGAU

Clinig Babanod Iach;

Cynhelir y clinig hwn ar brynhawn Mawrth rhwng 1.30yh a 3.30yh. Bydd y Meddyg, y Nyrs a'r Ymwelydd Iechyd yn bresennol i roi brechiadau, profion datblygiad, rhoi cyngor a thrafod unrhyw broblemau neu ofidiau sydd gennych am eich plentyn.

Clinig Cyn Geni;

Cynhelir y clinig hwn ar brynhawn dydd Mercher rhwng 1.00pm a 3.00pm yn y Feddygfa. Bydd y Meddyg a Bydwraig Gymunedol yn bresennol i sicrhau fod popeth yn iawn yn ystod eich beichiogrwydd ac i barhau gyda'r gofal amdanoch wedi'r enedigaeth.

Atal Cenhedlu;

Mae'r Meddygon i gyd o fewn y practis wedi eu hyfforddi mewn atal cenhedlu ac yn barod i drafod hyn gyda chi yn ystod eich apwyntiad.

Profion Taen Serfigol / Ceg y Groth;

Mae nifer o fenywod eisoes wedi cymryd mantais o'r prawf rhad hwn. Os ydych dros 20 oed ac am gael y prawf neu ragor o wybodaeth, gofynnwch i'r meddyg neu'r nyrs os gwelwch yn dda. Byddwn yn trefnu ôl-broffion hefyd.

Clinig Diabetig;

Os oes gennych glefyd y siwgr gall y nyrs a'r meddyg eich gweld yn rheolaidd i gynorthwyo eich gofal. Holwch yn y dderbynfa am fanylion pellach.

Clinig Dafaden (Wart);

Cynhelir hwn un waith y mis yn y prynhawn. Gwnewch apwyntiad yn y Dderbynfa os gwelwch yn dda.

Llawdriniaethau Llai ;

Bydd Dr Stone a Dr Ganderton yn gweld cleifion ar gyfer Llawdriniaethau Llai. Os oes gennych lwmpyn neu chwydd sy'n eich gofidio trafodwch nhw gyda'r meddyg gyntaf cyn gwneud apwyntiad

RHIFAU FFÔN DEFNYDDIOL

Age Concern	2052 1052	Fferyllfa Boots – Treganna	2022 5491
Llinell Gymorth Aids	2066 6465	Fferyllfa Pontcanna	2037 7283
Alcoholigion Anhysbys	2037 3939	Samariaid	2034 4022
Connect 2 Cardiff (<i>gwasanaeth nôs</i>)	2044 4500	Ysbyty Llandochau	2071 1711
Rape Crisis Caerdydd	2045 4222	Ysbyty Prifysgol Cymru	2074 7747
Cyngor Dinasyddion	2039 8676	NHS Direct	0845 46 47
Nyrsys Cymunedol (Nôs)	2066 6317	Bwrdd Iechyd Lleol	2055 2212
Adran Nawdd Gymdeithasol	2039 9766	Trenewydd	
Drugline	2038 3313	Ffordd y Tyllgoed	
Meddygfa'r Tyllgoed	2056 8044	Caerdydd CF5 2LD	
Heddlu	2022 2111		